




Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner


# Cylchlythyr yr Haf 2026

## Summer Newsletter 2026



## Haf 2026

Croeso cynnes i gylchlythyr chwarterol Comisiynydd y Gymraeg. Gobeithio y byddwch yn mwynhau ei ddarllen. Mae croeso i chi ei rannu gyda chydweithwyr a chyfeillion.



## Summer 2026

A warm welcome to the Welsh Language Commissioner's quarterly newsletter. We hope you enjoy reading it. Please feel free to share it with colleagues and friends.

## Eisteddfod y Garreg Las

Rydym yn edrych ymlaen at yr Eisteddfod Genedlaethol yn sir Benfro ddechrau mis Awst. Byddwn yn cynnal digwyddiad ym mhafiliwn y Cymdeithasau fore Llun, 3 Awst am 11am lle bydd sgwrs banel yn adlewyrchu ar ddegawd o safonau'r Gymraeg yng nghwmni y Gweinidog Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg, Anna Brychan AS a Chomisiynydd y Gymraeg, Efa Gruffudd Jones dan arweiniad y newyddiadurwr, Nest Jenkins.

Mae croeso cynnes i bawb, a chofiwch alw i'n gweld ar ein stondin drwy gydol yr wythnos. Mae'r amserlen lawn ar ein [gwefan](#) ac ar ein cyfryngau cymdeithasol.

## Eisteddfod y Garreg Las

We are looking forward to the National Eisteddfod in Pembrokeshire at the beginning of August. We will be hosting an event in the Cymdeithasau pavilion on Monday 3 August at 11am, featuring a panel discussion reflecting on a decade



of the Welsh language standards. The speakers will include the Cabinet Minister for Education and the Welsh Language, Anna Brychan MS, and the Welsh Language Commissioner, Efa Gruffudd Jones, and will be chaired by journalist Nest Jenkins.

Everyone is welcome and do come and visit us at our stand throughout the week. More information is available on our [website](#) and on our social media channels.



## Y Gymraeg ar y campws

Yn ystod wythnos Eisteddfod yr Urdd eleni fe wnaethom gyhoeddi astudiaeth thematig sy'n rhoi cipolwg ar brofiad dros 1,500 o fyfyrwyr o wasanaethau Cymraeg mewn addysg bellach ac uwch yng Nghymru.

Mae'r canfyddiadau'n dangos darlun cymysg, gyda rhai enghreifftiau o arfer da ond bod diffyg cysondeb ar draws y sector, yn enwedig o ran cyflwyno gwaith yn Gymraeg, mynediad at diwtoriaid Cymraeg, llety, a gwasanaethau llesiant. Rydym wedi nodi camau gwella clir i brifysgolion a cholegau addysg bellach i gryfhau'r ddarpariaeth a sicrhau bod myfyrwyr yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn naturiol fel rhan o'u bywydau academiaidd a chymdeithasol.

Mae'r adroddiad ar gael i'w ddarllen yn llawn yma [Cipolwg ar brofiad myfyrwyr o wasanaethau Cymraeg](#) a chyhoeddwyd [fideo newydd](#) yn dangos myfyrwyr yn trafod eu defnydd o'r Gymraeg ar y campws.

## Welsh on campus

During this year's Urdd Eisteddfod, we published a thematic study providing an insight into the experiences of over 1,500 students of Welsh-language services in further and higher education in Wales.

The findings present a mixed picture, with some examples of good practice but a lack of consistency across the sector, particularly in relation to submitting work in Welsh, access to Welsh-speaking tutors, accommodation, and wellbeing services. We have identified clear areas for improvement for universities and further education colleges to strengthen provision and ensure that students can use Welsh naturally as part of their academic and social lives.

The full report is available here [An into students' experiences of Welsh-language services](#). A [new video](#) has also been produced featuring students discussing their use of Welsh on campus.





## Cyhoeddi adroddiad ymchwiliad i'r gwasanaeth carchardai

Ym mis Mehefin fe wnaethom ni gyhoeddi adroddiad yn dilyn ymchwiliad i'r modd y mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi yn gweithredu ei gynllun iaith Gymraeg. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at sawl maes lle mae angen gwelliant, gan gynnwys cryfhau ymwybyddiaeth staff o'r iaith Gymraeg a'r diwylliant, datblygu systemau mwy effeithiol i gofnodi a defnyddio sgiliau iaith staff a sicrhau bod carcharorion yn ymwybodol o'u hawl i gyfathrebu'n Gymraeg.

Er nad yw'r gwasanaeth carchardai yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg ar hyn o bryd, mae'r Comisiynydd wedi galw unwaith eto am ehangu cwrpas y Safonau i gynnwys mwy o sefydliadau cyhoeddus.

Mae'r adroddiad llawn ar gael yma [Y Gymraeg yn ein carchardai](#)

## Publication of investigation report into the prison service

In June, we published a report following an investigation into the way His Majesty's Prison and Probation Service (HMPPS) implements its Welsh Language Scheme. The report highlights several areas requiring improvement, including strengthening staff awareness of the Welsh language and culture, developing more effective systems to record and utilise staff language skills, and ensuring that prisoners are aware of their right to communicate in Welsh.

Although the prison service is not currently subject to the Welsh language standards, the Commissioner has once again called for the scope of the Standards to be extended to include more public bodies.

The full report is available here: [Welsh in our prisons](#).

## Cynhadledd cymdeithasau tai

Cymdeithasau tai yw'r sector ddiweddaraf i gael eu henwi mewn rheoliadau safonau yn dilyn cymeradwyaeth gan Senedd Cymru. Cynhaliwyd cynhadledd yn Llandrindod fis Mehefin er mwyn sicrhau fod y sefydliadau yn deall y dyletswyddau statudol.


Cafwyd cyfraniadau gan sefydliadau sydd eisoes yn gweithredu'r Safonau yn ogystal â chyflwyniadau gan aelodau o swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a wnaeth amlinellu'r cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael ar hyd y daith.

## Housing association conference

Housing associations are the latest sector to be included under the Welsh language standards



regulations following approval by the Senedd. A conference was held in Llandrindod Wells in June to ensure that organisations are clear about their statutory duties.



Contributions were made by organisations already operating under the Standards, alongside presentations from members of the Welsh Language

Commissioner's office outlining the support and assistance available throughout the implementation journey.

## Cynadleddau'r Hydref

Ddydd Iau, 24 Medi, cynhelir cynhadledd yng Nghaerdydd ar gyfer y sefydliadau hynny sy'n gweithredu a chefnogi gweithrediad Strategaethau Hybu'r Gymraeg, Gallwch gofrestru drwy ddilyn y [ddolen hon ar ein gwefan](#)

Ddydd Mawrth, 10 Tachwedd cynhelir cynhadledd ym Mangor i gydnabod arferion da sydd yn digwydd ar draws pob sector yng Nghymru o safbwynt y Gymraeg ac a fydd yn ein harwain at ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg eleni. I gofrestru diddordeb i gymryd rhan yn yr [ymgyrch](#) eleni ewch i'n gwefan.

## Autumn conferences



On Thursday, 24 September, a conference will be held in Cardiff for organisations responsible for implementing and supporting Welsh language promotion strategies. You can [register here](#) on our website.

On Tuesday, 10 November, a conference will be held in Bangor to showcase and celebrate good practice across all sectors in Wales in relation to the Welsh language and will help lead into this year's Defnyddia dy Gymraeg (Use your Welsh) campaign. To register your interest in taking part in this year's [campaign](#) visit our website.

## Polisi gorfodi a fframwaith rheoleiddio

Mae'r Comisiynydd bellach wedi cymeradwyo Polisi Gorfodi a Fframwaith Rheoleiddio diwygiedig. Mae'r dogfennau hyn yn darparu sylfaen glir ar gyfer ein gwaith rheoleiddio ac yn egluro'r egwyddorion, y dulliau a'r ystyriaethau a ddefnyddir wrth fonitro cydymffurfiaeth a chymryd camau gorfodi lle bo hynny'n briodol. Byddant yn cyfrannu at sicrhau mwy o gysondeb, tryloywder ac eglurder i sefydliadau ac i'r cyhoedd ynghylch sut rydym yn cyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio.

Mae'r polisi gorfodi a'r fframwaith rheoleiddio ar gael i'w darllen ar ein gwefan.

## Enforcement policy and regulatory framework

The Commissioner has now approved a revised enforcement policy and regulatory framework. These documents provide a clear foundation for our regulatory work and explain the principles, approaches and considerations used when monitoring compliance and taking enforcement action where appropriate. They will contribute to greater consistency, transparency and clarity for organisations and the public regarding how we carry out our regulatory functions.

The enforcement policy and regulatory framework are available to read on our website.



Am fwy o wybodaeth am ein gwaith cofiwch ymweld â'n gwefan [comisiynyddygydraeg.cymru](http://comisiynyddygydraeg.cymru) neu dilynwch ni ar Facebook, Instagram a LinkedIn ac os am anfon neges atom y cyfeiriad e-bost yw [cyfathrebu@cyg-wlc.cymru](mailto:cyfathrebu@cyg-wlc.cymru)



For more information about our work please visit our website [welshlanguagecommissioner.wales](http://welshlanguagecommissioner.wales) or follow us on Facebook, Instagram and LinkedIn and if you want to get in touch e-mail us on [cyfathrebu@cyg-wlc.wales](mailto:cyfathrebu@cyg-wlc.wales)





Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner